Dyddiad llofnodi gan y Swyddog Monitro: 13.04.21
Dyddiad llofnodi gan y Swyddog Adran 151: 14.04.21

| | |
|---|---|
| Pwyllgor: | **Pwyllgor Gweithredol** |
| Dyddiad y Cyfarfod: | **Dydd Llun 22 Chwefror 2021** |
| Pwnc yr Adroddiad: | **Ysgol Gynradd Gymraeg: Adroddiad Cyfnod Hysbysiad Statudol/Gwrthwynebiad** |
| Deiliad Portffolio: | **Portffolio Addysg a Dysgu – Cyng Joanne Collins** |
| Cyflwynir yr Adroddiad gan: | **Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg - Lynn Phillips** |

| Tîm Rheoli y Gyfarwyddiaeth | Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol | Deiliad Portffolio/ Cadeirydd | Pwyllgor Archwilio | Pwyllgor Gwas. Democrataidd | Pwyllgor Craffu | Pwyllgor Gweithredol | Cyngor | Arall (noder) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **07.04.21** | 13.04.21 | | | | **21.04.21** | | |

1. **Diben yr Adroddiad**

1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg i'r Pwyllgor Gweithredol o ganlyniadau ac argymhellion y cyfnod Hysbysiad Statudol/Gwrthwynebiad yng nghyswllt y cynnig i adeiladu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi.

2. **Cwmpas a Chefndir**

2.1 **Y Cynnig**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig datblygu ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle yn Nhredegar/Cwm Sirhywi, ynghyd â darpariaeth gofal plant ar yr un safle. Mae'r opsiwn a ffafrir yn anelu i ddatblygu adeilad yr ysgol ar safle Chartist Way drwy fodel egin/twf, lle byddai'r cyfleuster gofal plant, ynghyd â grwpiau meithrin a dosbarth derbyn, yn dod i rym o fis Medi 2023; gyda 28 lle gofal plant, 24 lle meithrin a 24 lle dosbarth derbyn. Byddai'r ysgol wedyn yn tyfu flwyddyn ar flwyddyn. Bydd yr ysgol wedi sefydlu'n llawn erbyn 2029, gyda phob grŵp blwyddyn o Feithrin i Flwyddyn 6 yn weithredol.

2.2 Byddai'r ysgol egin newydd yn cael ei dylunio a'i hadeiladu'n bwrpasol yn unol â safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif. Mae'r opsiwn a ffafrir yn cynnwys strwythur llywodraethiant ac arweinyddiaeth a ddatblygid fel estyniad o Ysgol Gymraeg Bro Helyg. Byddai hyn yn golygu mai un Corff Llywodraethol fyddai i'r ddwy ysgol gyda'i gilydd, ynghyd â newidiadau perthnasol i'r strwythur staffio.

2.3 Cyfarfu'r Pwyllgor Gweithredol ar 16 Rhagfyr 2020 a chytunodd ymgynghori ar y cynnig uchod, gyda'r prosesau ymgynghori yn dechrau ddydd Iau 17 Rhagfyr 2020, gan ddod i ben ddydd Gwener 29 Ionawr 2021. Cafodd yr ymgynghoriad ei gychwyn a'i gynnal drwy ddogfen ymgynghori ffurfiol ac arolwg ar-lein i gyd-fynd â hynny (mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yn **Atodiad 1),** oedd yn cydymffurfio'n llawn gyda'r gofynion statudol a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (F2). Diben yr ymgynghoriad oedd canfod

sylwadau a barn ymgyngoreion yng nghyswllt y cynnig er mwyn llywio proses gwneud penderfyniadau a cham nesaf y Cyngor.

2.4 Cyflwynwyd adroddiad all-dro yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Gweithredol ar 22 Chwefror 2021 pan roddwyd cymeradwyaeth i'r Gyfarwyddiaeth Addysg symud ymlaen i Hysbysiad Statudol.

2.5 Penderfynodd y broses ymgynghori fod cefnogaeth eang o blaid y cynnig ymysg ymgyngoreion gyda dros 93% o'r ymatebwyr o blaid datblygu'r ysgol newydd, gan sôn am yr effaith gadarnhaol y mae'r cynnig yn debyg o'i gael ar: yr iaith Gymraeg, addysg, cyflogaeth, y gymuned leol a'r economi. Yn gryno, yn ystod y cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod:

- Derbyniodd y Cyngor 8 ymateb e-bost, 5 yn Saesneg a 3 yn ddwyieithog
- Derbyniodd y Cyngor 190 ymateb i'r arolwg, 16 ohonynt wedi eu llenwi yn y Gymraeg, gyda'r gweddill wedi'i cyflwyno yn Saesneg
- Gellir dadansoddi'r ymatebion fel sy'n dilyn:
  - **Cefnogi'r cynnig yn llawn - 177 (93%)**
  - **Cefnogi'r cynnig yn rhannol- 2 (1%)**
  - **Dim yn cefnogi'r cynnig - 11 (6%)**

2.6 Cynhaliwyd y cyfnod Hysbysiad Statudol (gweler **Atodiad 2** ar gyfer y ddogfen) dros 28 diwrnod yn ôl y gofyniad a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018, fersiwn 2), a:

- dechreuodd ddydd Llun 1 Mawrth 2021; a
- daeth i ben ddydd Llun 29 Mawrth 2021.

2.7 Rhoddodd y cyfnod Hysbysiad Statudol gyfle i unrhyw un a ddymunai wneud gwrthwynebiadau i gynnig trefniadaeth ysgol i wneud hynny. Mae'n rhaid wedyn cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiad yn cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiad statudol, ynghyd ag ymateb y cynigydd i'r gwrthwynebiad.

2.8 Rhoddir canlyniad y cyfnod Hysbysiad Statudol yn adran 2.8, mae'r ffaith mai dim ond un gwrthwynebiad a dderbyniwyd yn dangos lefel uchel o gefnogaeth ar gyfer y cynnig, sy'n cyd-fynd gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad.

**Cyfnod Hysbysiad Statudol (Cyfnod Gwrthwynebiad)**

Cafodd y gefnogaeth eang i'r cynnig ei ddangos ymhellach gan ganlyniad y cyfnod Hysbysiad Statudol, gyda dim ond 1 llythyr gwrthwynebiad yn cael ei dderbyn. Mae'r ymateb yn rhoi manylion pryderon am yr effaith bosibl ar yr unigolyn fel preswylydd lleol, yn hytrach na nodi gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynnig. Cafodd cynnwys yr ohebiaeth ei ddadansoddi yn **Atodiad 3,** a chaiff pob consyrn eu trin yn llwyr. Mae'r dilynol yn grynodeb o'r prif bryderon:

- effaith ar yr olygfa o gartref yr ymatebydd;
- effaith h.y. sŵn, annibendod a mynediad, fel canlyniad i'r gwaith adeiladu ac agor yr ysgol yn ddilynol; a
- pharcio a goblygiadau traffig cysylltiedig.

Fodd bynnag, roedd yr ohebiaeth yn dweud fod yr ymatebydd yn gefnogol i addysg Gymraeg.

3 **Opsiynau ar gyfer Argymhelliad**

3.1 Mae 2 opsiwn yn gysylltiedig gyda'r adroddiad Gwrthwynebiad, fel sy'n dilyn:

- **Opsiwn 1** – Bod y Pwyllgor Gweithredol yn ystyried ac yn derbyn yr adroddiad Gwrthwynebiad, dogfennau cysylltiedig a llwybr gweithredu, ac yn cytuno symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Penderfyniad (sydd ei angen o fewn 7 diwrnod o wneud y penderfyniad, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018, fersiwn 2).
- **Opsiwn 2** – Bod y Pwyllgor Gweithredol yn gwrthod y cynnig i symud ymlaen i Hysbysiad Penderfyniad

4. **Tystiolaeth o sut mae'r pwnc hwn yn cefnogi cyflawni'r Cynllun Corfforaethol / Cyfrifoldebau Statudol / Cynllun Llesiant Blaenau Gwent**

4.1 Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2018, fersiwn 2), mae gofyniad statudol ar Gynghorau i ymgynghori ar, cyhoeddi a dilyn y prosesau statudol yn gysylltiedig gyda chynigion ad-drefnu ysgolion. Mae addysg yn flaenoriaeth strategol o fewn y Cynllun Corfforaethol, gyda thwf, datblygiad a chynaliadwyedd addysg Gymraeg yn elfen allweddol.

4.2 Mae gan y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ran allweddol wrth sicrhau mynediad a datblygiad parhaus o'r Gymraeg yn unol â nod Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae addysg hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Gynllun Llesiant Blaenau Gwent gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithio tuag at saith nod llesiant, gyda 'Cymru o ddiwylliant byw a'r Gymraeg yn ffynnu' yn un ohonynt. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at y nodau llesiant. Mae gan y broses ar gyfer cynllunio addysg Gymraeg hefyd sail statudol dan Adran 84 o Ddeddf 2013.

5. **Goblygiadau pob Opsiwn**

5.1.1 **Effaith ar y Gyllideb**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn ar gyfer y Cyngor, gan fod y £6m a ddyfarnwyd yn gyllid 100% heb unrhyw ofyniad arian cyfatebol. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddyfarnu £200,000 fel cyllid 100% o Grant Cyfalaf Gofal Plant..

5.1.2 Bydd goblygiadau i'r gyllideb refeniw yn y tymor canol i'r hirdymor, gan y bydd angen sefydlu'r Gyllideb Ysgol Unigol ym mlwyddyn ariannol 2023/2024 a bydd y cyllid sydd ei angen yn tyfu'n flynyddol wrth i'r ysgol dyfu i'w chapasiti.

5.1.3 Mae'r tybiaethau a ddefnyddir yn y modelu yn cynnwys tybiaeth na fyddai unrhyw dwf yn gyffredinol yn y boblogaeth disgyblion fel canlyniad i'r cynnig hwn, byddai angen i'r Gyllideb Ysgol Unigol gynyddu gan £265,000 yn 2023/2024 gyda chynnydd pellach o £189,000 yn 2024/2025 er mwyn ariannu'r ysgol newydd. Byddai gweddill y cyllid seiliedig ar ddisgyblion yn dod o fewn y Gyllideb Ysgol Unigol bresennol, wrth i ddisgyblion ddewis y

gosodiad newydd yn hytrach nag ysgolion eraill (gan ostwng cyllid seiliedig ar ddisgyblion yn yr ysgolion sy'n bodoli eisoes).

5.1.4 Yn seiliedig ar y modelu uchod, bydd pwysau cost ar y Cyngor o £265,000 yn 2023/2024 a £189,000 yn 2024/2025, y bydd angen ei ystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol.

5.1.5 Mae'n debyg y bydd effaith ariannol gadarnhaol ar Gludiant Rhwng y Cartref i'r Ysgol a byddai angen cynnal asesiad er mwyn meintioli'r buddion gostyngiad cost tebygol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol:

- Mae **gwariant presennol** y flwyddyn ar addysg Gymraeg tua:
  - Cynradd - £150,000 (4 Bws ac 1 Tacsi)
  - Uwchradd - £220,000 (6 Bws ac 1 Tacsi)
  - **2 fws i Fro Helyg o ardal Ebwy Fawr a Thredegar** - £67,000 y flwyddyn
- **Gostyngiad posibl mewn camau mewn costau cludiant** h.y. disgyblion Tredegar/Ebwy Fawr i Fro Helyg – cost gyfartalog fesul bws y flwyddyn £33,000.

5.1.6 Os caiff yr arbedion hyn eu sicrhau drwy'r Gyllideb Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol, cânt eu defnyddio i wrthbwyso unrhyw bwysau cost posibl a gaiff eu dynodi..

5.2 **Risg** Mae risg na fydd y Cyngor yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ymhellach, mae potensial i golli'r £6m a ddyrannwyd i Flaenau Gwent yn unol â datblygiad ysgol gynradd Gymraeg newydd 210 lle sy'n adeiladu ar y cysyniad/model egin pe na byddai'r cynnig a'r cysyniad yn symud ymlaen. Yn ychwanegol, byddai'r Cyngor yn colli'r £200,000 a ddyrannwyd yn unol â Grant Cyfalaf Gofal Plant.

5.3 **Cyfreithiol** Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol yn gysylltiedig gyda'r cynnig.

5.4 **Adnoddau Dynol** Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar staffio na'r gweithlu yn gysylltiedig gyda'r broses ymgynghori. Os aiff y cynnig yn ei flaen, fodd bynnag, caiff yr agweddau llywodraethiant ac arweinyddiaeth eu datblygu mewn partneriaeth gyda Datblygu Sefydliadol, Cyllid a'r ysgol yr effeithir yn uniongyrchol arni.

6 **Tystiolaeth i Gefnogi**

6.1 **Gwybodaeth a Data Perfformiad** Gweler y ddogfen ymgynghori **(Atodiad1)** am ddata perfformiad yn gysylltiedig â'r cynnig.

6.2 **Canlyniad disgwyliedig ar gyfer y cyhoedd** Gall y cyhoedd ddisgwyl cyfleuster ysgol newydd 21[ain] Ganrif newydd gyda darpariaeth gofal plant yn yr un lleoliad, sy'n hybu ac yn datblygu cyfleoedd a mynediad i addysg Gymraeg o fewn Blaenau Gwent.

6.3 **Ymgyfraniad** Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ffocws allweddol yn holl gynigion trefniadaeth ysgolion. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig, ynghyd â chyfnod gwrthwynebiadau wedi'i alinio gyda'r Hysbysiad Statudol yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru. Caiff a chafodd canlyniadau hynny eu defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniad.

6.4 **Meddwl am yr hirdymor** Mae'r cynnig yn anelu i sicrhau darpariaeth addysg Gymraeg ychwanegol yn unol â datblygiad a chynaliadwyedd hirdymor y system addysg ym Mlaenau Gwent.

6.5 **Ffocws ataliol** Mae'r cynnig yn anelu i drin materion cynaliadwyedd yn gysylltiedig gyda thwf a datblygiad addysg Gymraeg yn y dyfodol.

6.6 **Cydweithio/gweithio partneriaeth** Mae'r prosesau statudol ynghyd â datblygiad y cynnig wedi cynnwys cydweithio gyda'r Fforwm Addysg Gymraeg yn lleol ac yn rhanbarthol, Cynllunio, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Cymunedol, Cyllid, Ysgolion, awdurdodau eraill ac yn y blaen.

6.7 **Integreiddio** Mae'r cynnig yn anelu i sicrhau integreiddiad rhwng addysg a darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd a phresennol, gan gefnogi twf a chynaliadwyedd.

6.8 **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** Cwblhawyd Asesiad yn unol â'r ymgynghoriad, a benderfynodd nad oes unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig. Mae'r cynnig yn hyrwyddo cyfle cyfartal o fewn Blaenau Gwent ar gyfer teuluoedd a dysgwyr Cymraeg, gan gael argraff gadarnhaol ar y Gymraeg.

7. **Trefniadau Monitro**

Os yw'r cynnig yn symud yn ei flaen, caiff y prosiect ei sefydlu a'i reoli yn unol â Fframwaith Rheoli Prosiect Corfforaethol Blaenau Gwent a methodoleg PRINCE 2. Byddid yn sefydlu grŵp rheoli prosiect i oruchwylio datblygiad a gweithrediad y cynnig.

**Dogfennau Cefndir/Dolenni Electronig**

**Atodiad 1** Dogfen Ymgynghori

**Atodiad 2** Hysbysiad Statudol

**Atodiad 3** Adroddiad Gwrthwynebiad